OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 97 (Cy.20) (C.6)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2) 2011

Gwnaed - - - - 17 Ionawr 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 48(2) a 49(2) o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000(**2**);

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

Diwrnodau Penodedig

2.—(1) Y diwrnod penodedig at ddibenion dod i rym ddarpariaethau canlynol y Mesur yw 19 Ionawr 2011—

(a) adran 23 (cwricwla lleol: Y Gymraeg);

(b) adran 25 (penderfynu "relevant school or institution" ar gyfer disgybl);

(c) adran 26 (dewisiadau disgyblion o gyrsiau cwricwlwm lleol);

(ch) adran 28 (penderfyniad pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad ynghylch hawlogaeth) at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 33G(3) o Ddeddf 2000;

(d) adran 30 (penderfyniad pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad i ddileu hawlogaeth) at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 33I(3) o Ddeddf 2000;

(dd) adran 31 (cynllunio'r cwricwlwm lleol);

(e) adran 32 (cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol: cydweithio);

(f) adran 33 (cydweithio: canllawiau a chyfarwyddiadau);

(ff) adran 34 (pŵer i ddiwygio meysydd dysgu);

(**1**) 2009 mccc 1.
(**2**) 2000 p.21.

(g) adran 35 (y cwricwlwm lleol: dehongli);

(ng) adran 36 (cwricwlwm lleol: cyfarwyddiadau);

(h) adran 37 (cymhwyso darpariaethau cwricwlwm lleol i fyfyrwyr sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig neu fyfyrwyr a chanddynt anawsterau dysgu);

(i) adran 38 (cymhwyso darpariaethau'r cwricwlwm lleol i sefydliadau o fewn y sector addysg uwch);

(j) adran 39 (rheoliadau a gorchmynion: y weithdrefn);

(l) adran 47 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) yn llawn;

(ll) paragraffau 1 i 10 o'r Atodlen (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol).

(2) Y diwrnod penodedig at ddibenion dod i rym ddarpariaethau canlynol y Mesur yw 14 Chwefror 2011—

(a) adran 21 (addysg a hyfforddiant ar gyfer personau 16 i 18 oed);

(b) adran 22 (llunio cwricwla lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed);

(c) adran 24 (ardaloedd â mwy nag un cwricwlwm lleol);

(ch) adran 27 (hawlogaethau myfyrwyr o ran y cwricwlwm lleol);

(d) adran 28 (penderfyniad pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad ynghylch hawlogaeth) i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn gan erthygl 2(1)(ch);

(dd) adran 29 (cyflawni hawlogaethau'r cwricwlwm lleol);

(e) adran 30 (penderfyniad pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad i ddileu hawlogaeth) i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn gan erthygl 2(1)(d).

Leighton Andrews
Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau o dan awdurdod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

17 Ionawr 2011